



Arolwg Cenedlaethol o Fyfrwyr
National Student Survey

Arolwg Cenedlaethol o Fyfrwyr - Prif Holiadur

Graddfa: Cytuno'n llwyr; Cytuno ar y cyfan; Ddim yn cytuno nac yn anghytuno; Anghytuno ar y cyfan; Anghytuno'n llwyr; Ddim yn berthnasol

Y dysgu ar fy nghwrs

1. Mae'r staff yn esbonio pethau'n dda.
2. Mae'r staff wedi gwneud y pwnc yn ddiddorol.
3. Mae'r cwrs yn ysgogi'r deal.
4. Mae fy nghwrs i wedi fy herio i i wneud fy ngwaith gorau.

Cyfleoedd dysgu

5. Mae fy nghwrs i wedi rhoi cyfleoedd i mi astudio syniadau neu gysyniadau newydd mewn manylder.
6. Mae fy nghwrs i wedi rhoi cyfleoedd i mi ddod â gwybodaeth a syniadau at ei gilydd o wahanol bynciau.
7. Mae fy nghwrs i wedi rhoi cyfleoedd i mi ddefnyddio'r hyn rydw i wedi'i ddysgu.

Asesu ac adborth

8. Mae'r meini prawf ar gyfer marcio wedi cael eu hegluro ymlaen llaw.
9. Mae'r marcio a'r asesu wedi bod yn deg.
10. Mae'r adborth ar fy ngwaith i wedi bod yn amserol.
11. Rydw i wedi derbyn sylwadau defnyddiol ar fy ngwaith.

Cymorth academiaidd

12. Rydw i wedi gallu cysylltu â'r staff pan oedd angen.
13. Rydw i wedi derbyn digon o gyngor ac arweiniad mewn perthynas â fy nghwrs.
14. Roedd cyngor da ar gael pan oedd arnaf i ei angen er mwyn gwneud dewisiadau astudio ar fy nghwrs.

Trefniadaeth a rheolaeth

15. Mae'r cwrs wedi ei drefnu'n dda ac yn rhedeg yn esmwyth.
16. Mae'r amserlen yn gweithio'n effeithlon i mi.
17. Mae unrhyw newidiadau yn y cwrs neu'r dysgu wedi cael eu cyfleu'n effeithiol.

Adnoddau dysgu

18. Mae'r adnoddau a'r cyfleusterau TG sydd wedi'u darparu wedi cefnogi fy nysgu yn dda.
19. Mae adnoddau'r llyfrgell (e.e. llyfrau, gwasanaethau ar-lein a gofod dysgu) wedi cefnogi fy nysgu yn dda.
20. Rydw i wedi gallu cael mynediad i adnoddau penodol i fy nghwrs (e.e. offer, cyfleusterau, meddalwedd, casgliadau) fel sydd angen.

Cymuned ddysgu

21. Rydw i'n teimlo'n rhan o gymuned o staff a myfyrwyr.
22. Rydw i wedi cael cyfleoedd priodol i weithio gyda myfyrwyr eraill fel rhan o fy nghwrs.

Llais y myfyriwr

23. Rydw i wedi cael cyfleoedd priodol i roi adborth ar fy nghwrs.
24. Mae'r staff yn gwerthfawrogi safbwyntiau a barn y myfyrwyr am y cwrs.
25. Mae'n glir sut mae adborth y myfyrwyr ar y cwrs wedi cael sylw a bod pethau wedi cael eu rhoi ar waith.
26. Mae undeb (cymdeithas neu urdd) y myfyrwyr yn cynrychioli buddiannau academiaidd y myfyrwyr.

Bodlonrwydd

27. Ar y cyfan, rydw i'n fodlon ag ansawdd y cwrs.



Ipsos MORI



Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

hefcw

